ADRAN YSTADAU STRATEGOL

Llogi Cychod Trydan Bach
Doc Sych Rhif 3,
Bae Caerdydd

Cyfle i Dendro

Mae'n rhaid derbyn pob cynnig erbyn
Dydd Gwener 21 Medi 2018

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, Working together

ADRAN YSTADAU STRATEGOL

Cyflwyniad

Hoffai Awdurdod Harbwr Caerdydd wahodd gweithredwyr â diddordeb i dendro am gyflenwi, gosod a gweithredu llogi cychod trydan bach (neu wasanaeth o fath tebyg), i'w leoli yn un o'r Dociau Sych hanesyddol sydd yn Harbwr Mewnol Bae Caerdydd.

Cefndir

Nodwyd y gofod dŵr rhydd sydd o fewn Doc Sych Rhif 3 fel safle delfrydol i roi gweithgaredd teuluol poblogaidd ynddo megis gwasanaeth fel llogi cychod trydan bach.

Mae Awdurdod Harbwr Caerdydd yn credu y gallai darpariaeth o'r fath fod yn ychwanegiad llwyddiannus at y gweithgareddau sydd ar hyn o bryd ar gael i ymwelwyr ym Mae Caerdydd a byddai defnyddio'r doc hanesyddol ar gyfer atyniad gyda chychod yn berthnasol iawn mewn perthynas â threftadaeth yr ardal.

Lleoliad

Mae lleoliad y cyfle hwn o fewn pellter cerdded i ardal brysur Cei'r Fôr Forwyn ac yn agos at yr atyniad sydd eisoes yn boblogaidd ymhlith ymwelwyr, sef Techniquest. Hefyd mae dau faes parcio cyhoeddus o fewn pellter cerdded rhwydd a chysylltiadau da at yr ardal mewn trên neu fws.





ADRAN YSTADAU STRATEGOL

Telerau Prydles Arfaethedig

Cyfnod	O 1 Ionawr 2019 tan 31 Rhagfyr 2021 gydag opsiwn i ymestyn.
Adeilad	Defnyddio Doc Sych Rhif 3. Bydd deiliad y brydles yn gyfrifol am ddarparu unrhyw adeilad ategol ag sydd ei angen i weithredu'r busnes a bydd yn gyfrifol am yr holl atgyweirio a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig a'u cadw i fynd.
Rhent	Pennir gan gyflwyniadau tendro. Cost fisol sefydlog neu rhannu'r elw.
Yswiriant	Bydd deiliad y brydles yn gyfrifol am yswirio'r eiddo yn ddigonol trwy gwmni yswiriant a gymeradwyir gan Drysorydd y Dinas a'r Sir
Treuliau	Bydd deiliad y brydles yn gyfrifol am dalu ardollau, taliadau dŵr, taliadau trydan ac asesiadau eraill a godir ar yr adeilad
Arall	Bydd y brydles yn destun y fath delerau ac amodau eraill ag y mae Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol yn ystyried eu bod yn briodol.
Costau	Bydd deiliad y brydles yn gwneud cyfraniad i syrfewyr rhesymol y Cyngor a chostau cyfreithiol o £1,125.00

Cysylltwch â:

Liam Slater MRICS (Syrfëwr)
Ffôn: 02920 873559
E-bost : Liam.slater@caerdydd

ADRAN YSTADAU STRATEGOL

Rwyf i / Rydym ni .....wedi darllen yr amodau gwerthiant atodol a thrwy hyn yn cynnig, yn amodol ar y contract y swm rhentu sef:
£ ..... (punt) ..... (ceiniog)
(£ : p) y mis heb gynnwys TAW

Rwyf i / Rydym ni'n deall ein bod yn cyflwyno'r cynnig hwn ar ein traul ein hunain ac nid oes rhaid i'r Cyngor dderbyn unrhyw gynnig.

Rwyf i / Rydym ni'n datgan nad wyf/ydym yn rhan o unrhyw gynllun neu gytundeb lle rwy'n/rydym yn:

Yn hysbysu unrhyw berson arall o faint ein cynnig; a/neu

Wedi pennu maint unrhyw gynnig yn unol â threfniant pennu prisiau.

Rwyf i/rydym ni yn derbyn bod gan y Cyngor hawl i ganslo'r contract ac i adfer gennym swm unrhyw golled sy'n deillio o unrhyw ganslad o'r fath os darganfyddir y bu unrhyw weithred neu hepgoriad llwgr neu dwyllodrus a ddarbwyllodd y Cyngor mewn unrhyw ffordd i fynd i mewn i'r contract.

Rwyf i / Rydym ni yn cytuno, os, cyn derbyn y cynnig, bydd unrhyw amheuaeth o ran swm y cynnig hwn rhoddir cyfle i ni egluro swm y cynnig neu dynnu'r cynnig yn ôl

Rwyf i/ Rydym ni'n cytuno na fydd rhoi unrhyw amodau i'r cynnig hwn neu unrhyw newidiadau anawdurdodedig i unrhyw un o'r manylion gennym yn effeithio ar y testun gwreiddio ond bydd yn peri i'r cynnig fod yn agored i gael ei wrthod.

Rwyf i/Rydym ni'n cytuno y bydd y cynnig yn parhau'n agored i gael ei dderbyn gan y Cyngor ac ni chaiff ei dynnu'n ôl gennym am gyfnod o 28 diwrnod o'r dyddiad olaf a bennwyd ar gyfer derbyn cynigion neu unrhyw estyniad ohono a hysbyswyd.

Rwyf i/rydym ni'n ardystio bod hwn yn gynnig dilys.

Rwyf i/rydym ni'n cytuno i dalu ffioedd o £1,125.00 i'r syrfëwr.

Nid yw hwn y cadw'r hawl i beidio â derbyn unrhyw gynnig a dderbynnir

Gweithio dros Gaerdydd, gweithio gyda'n gilydd
Working for Cardiff, Working together

ADRAN YSTADAU STRATEGOL

Cyfeiriad	
Ffôn	
Enw	
Llofnod	
Dyddiad	
Enw'r Tyst	
Llofnod y Tyst	
Dyddiad	
Gwybodaeth am y Cynllun Busnes (atodwch os oes angen mwy o le)	

Pan fydd yr un sy'n cynnig yn gorff neu'n gymdeithas corfforedig, dylai ysgrifennydd y cwmni neu gyfarwyddwr neu ymddiriedolwr lofnodi. Yn achos partneriaeth, dylai partner lofnodi. Yn achos unigolyn dylai'r perchennog lofnodi.

ADRAN YSTADAU STRATEGOL

Pan fydd yr un sy'n cynnig yn gorff neu gymdeithas corfforedig, dylai ysgrifennydd y cwmni neu gyfarwyddwr "neu ymddiriedolwr" a awdurdodwyd yn briodol lofnodi. Yn achos partneriaeth, dylai partner lofnodi. Yn achos unigolyn dylai'r perchennog lofnodi.

Ni ddylid datgysylltu'r ffurf hon ar gynnig a dylid dychwelyd y ddogfen gyfan yn gyflawn yn yr amlen i:

Liam Slater MRICS - Syrfewr
Ystadau Strategol, Datblygiad Economaidd, Ystafell CY6 (Clos),
Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF11 5UW
Ffôn: 029 20873559
E-bost: Liam.Slater@caerdydd.gov.uk

Os bydd angen y ddogfen hon arnoch yn Saesneg, e-bostiwch y mewnflwch gwerthuso gwerthuso@caerdydd.gov.uk

Hefyd mae croeso i chi ymweld â'n gwefan Ystadau Strategol www.cardiffcouncilproperty.com

Gwadiad:

1. Rhoddir y wybodaeth uchod sy'n gynwysedig yn y ddogfen hon fel gwybodaeth gyffredinol sy'n ganllaw i bartïon â diddordeb yn unig ac nid yw'n rhan o gynnig neu gontract

2. Rhoddir pob disgrifiad, dimensiwn, cynllun, cyfeiriad at gyflwr a chaniatâd angenrheidiol ar gyfer defnydd a meddiannaeth a manylion eraill heb gyfrifoldeb ac ni ddylai partïon sydd â diddordeb ddibynnu arnynt fel datganiadau neu sylwadau o ffaith, ond mae'n rhaid iddynt fodloni eu hunain drwy arolygu neu fel arall o gywirdeb un ohonynt.

3. Nid oes gan unrhyw berson a gyflogir gan Gyngor Caerdydd yr awdurdod i wneud neu roi unrhyw sylwadau neu warant o gwbl mewn perthynas â'r eiddo/tir hwn.

4. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i beidio â derbyn unrhyw gynnig a gaiff.